

Hysbysiad Preifatrwydd

Er mwyn cynnig gwasanaethau i chi a'ch plentyn, bydd angen i ni gasglu ychydig o ddata personol gennych. Mae'r dudalen hon yn esbonio sut mae data personol rydych yn ei roi yn cael ei brosesu gan Feithrinfa Ysgolheigion Bach ym Mhrifysgol Caerdydd gan gynnwys yr hyn y byddwn yn ei gasglu a'r rheswm dros hynny, pwy all ei weld a beth yw eich hawliau.

Dibenion prosesu data

Bydd y data personol sy'n cael ei roi i'r feithrinfa yn cael ei brosesu at y dibenion canlynol:

- Cael ceisiadau gan ddarpar rieni ynghylch argaeledd, eu gwirio'n effeithiol ac ymateb iddynt;
- Gohebu â rhieni/gofalwyr o ran ein gwasanaethau pan ddaw ceisiadau i law;
- Cynnig gofal ac addysg ar gyfer y plant, yn cynnwys creu taith ddysgu ac asesiad angenrheidiol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni/gofalwyr;
- Anfon cylchlythyrau, gwybodaeth am ddigwyddiadau, teithiau ac addysgwyr allanol;
- Rhoi penderfyniadau ar waith, a gwneud penderfyniadau ar sail polisi a gweithdrefnau diogelu plant y feithrinfa, gan gadw pob plentyn yn ddiogel rhag esgeuluso a niwed;
- Cyfeirio at weithwyr proffesiynol allanol pan mae pryderon ynghylch angen meddygol neu addysgol, gan ennill y cymorth a'r cyngor angenrheidiol;
- Meddu ar gymhwyster rhoi gofal mewn argyfwng neu gymorth cyntaf neu roi cymorth o'r fath;
- Bodloni ein goblygiadau cyfreithiol, rheoleiddiol a diogelu

Pa wybodaeth a gesglir?

Cesglir gwybodaeth bersonol am y rhiant/gofalwr a'r plant/plentyn ar ein ffurflen gais. Mae hyn yn cynnwys:

- Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y rhiant/gofalwr;
- Enw a dyddiad geni'r plentyn.

Ar ôl yr ymholiad cychwynnol, lle gellir cynnig y gwasanaeth, bydd rhieni/gofalwyr yn rhoi gwybodaeth bersonol ychwanegol yn cynnwys:

- manylion perthnasol ynghylch cyflogaeth/astudiaethau'r rhiant/gofalwr;
- manylion cyswllt person dynodedig;

- gwybodaeth am feddyg/ymwelydd iechyd;
- gwybodaeth am iechyd a diet;
- dewisiadau personol;
- rhywedd y plentyn;
- crefydd y plentyn;
- cysylltiadau mewn argyfwng a'u manylion cyswllt;
- Unrhyw wybodaeth bersonol arall sy'n cael ei rhoi i ni mewn gohebiaeth ddilynol sy'n ymwneud â'r ymholiad neu'r cais.

Rydym yn casglu ac yn cadw cofnod o wybodaeth bersonol am blant yn ystod eu presenoldeb ym Meithrinfa Ysgolheigion Bach, yn cynnwys:

- Ffotograffau – i'w dangos yn y feithrinfa. Ni fydd ffotograffau'n cael eu defnyddio'n ehangach ac eithrio gyda chaniatâd penodol y rhiant/gofalwr perthnasol.
- Arsylwadau – caiff y rhain eu gwneud yn unol â'r Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar (EYFS) a Rhwng Genedigaeth a Thair Oed, ac maent yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig yn ogystal ag ar ffurf ffotograffau (fel ag y cytunwyd arnynt gyda rhieni/gofalwyr yn y cam ymsefydlu) i gael adlewyrchiad o'r hyn y mae'r plentyn yn ei ddysgu yn y feithrinfa.
- Cofnodion o gyfeiriadau at wasanaethau arbenigol blynyddoedd cynnar; yn cynnwys pryderon ynghylch diogelu a gwarchod plant (a allai olygu bod angen cadw gwybodaeth am bobl sy'n gysylltiedig â'r plentyn at ddibenion cyfeirio yn unig).
- Cofnodion o unrhyw gyswllt rhwng y feithrinfa ac ymarferwyr meddygol neu ymwelwyr iechyd.

At hynny, bydd y Brifysgol yn prosesu gwybodaeth ariannol sy'n ymwneud â thalu ffioedd allai gynnwys manylion banc neu gerdyn talu.

Mae ychydig o'r wybodaeth a brosesir gan y feithrinfa mewn categori data arbennig o natur sensitif. Mae hyn yn cynnwys:

- Data ethnigrwydd sy'n ymwneud â'r plentyn;
- Cyflyrau meddygol a gwybodaeth am anableded sy'n ymwneud â'r plentyn;
- Gwybodaeth iechyd sy'n ymwneud â'r plentyn;
- Cofnodion salwch sy'n ymwneud â'r plentyn;
- Crefydd.

Pwy fydd â mynediad at y data?

Rydym yn gwneud yn siŵr bod mynediad at ddata categori arbennig, a rhannu'r data hwnnw, yn bethau sy'n cael eu rheoli'n ofalus iawn. Caiff gwybodaeth ei chadw'n ddiogel naill ai mewn cyfleuster dan glo, neu wedi'i gwarchod â chyfrinair os ydyw wedi'i chadw'n electronig.

O fewn Meithrinfa Ysgolheigion Bach a'r Brifysgol, caiff eich data ei rannu â'r staff hynny sydd angen mynediad at ddibenion cynnal ein gwasanaethau a'n cyfleusterau'n unig.

Caiff data personol ei rannu ag ystod o sefydliadau allanol am ei fod yn angenrheidiol at y dibenion a amlinellir uchod ac yn ôl yr hyn a ganiateir gan y gyfraith, neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, gan gynnwys y canlynol:

- Byddwn yn datgelu gwybodaeth am blant yn ein gofal a/neu eu rhieni/gofalwyr pan mae'n angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion a gweithdrefnau gwarchod a diogelu plant. Mae hyn yn debygol o ddigwydd pan fydd gan y feithrinfa reswm i gredu bod bygythiad i

blentyn ac mae angen cyfeirio at yr awdurdod lleol. Caiff hyn ei wneud yn unol â'n Polisi Diogelu Plant a chynghor y bwrdd lleol ar gyfer diogelu plant;

- Rhaid cyflwyno data i Arolygiaeth Gofal Cymru fel y rheolydd pan geir cais, er enghraifft, yn rhan o archwiliad, er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau priodol yn cael eu bodloni a'u cynnal;
- Caiff gwybodaeth ei rhannu â'r awdurdod lleol i alluogi mynediad at addysg rad ac am ddim ar gyfer ariannu, ond dim ond pan rydym wedi cael cydsyniad wedi'i lofnodi gan rieni/warcheidwaid.
- Mae'n bosibl y gwnawn roi gwybodaeth i'r heddlu neu asiantaethau gorfodi eraill at ddibenion atal neu ganfod troseddau.

Ac eithrio'r hyn rydym wedi'i esbonio, ni fyddwn yn cyhoeddi neu'n datgelu unrhyw ddata personol i'r ymchwilwyr neu'r sefydliadau allanol eraill heblaw eich bod wedi cydsynio iddo, neu heblaw ei fod er budd hanfodol i'ch plentyn (e.e. mewn sefyllfa sy'n argyfwng).

Caiff eich data personol ei rannu fel sy'n angenrheidiol, ar sail a ystyrir a chyfrinachol, gyda sawl sefydliad allanol sy'n cynorthwyo â phrosesu eich gwybodaeth. Mae'r sefydliadau hynny'n gweithredu ar ein rhan yn unol â'n cyfarwyddiadau ac o dan delerau cytundebol llym, ac nid ydynt yn prosesu eich data at unrhyw ddiben y tu hwnt i'r hyn yr ydym yn gofyn iddynt ei wneud. Ar adegau, bydd eich data personol yn cael ei brosesu gan y sefydliadau hyn y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (er enghraifft, am eu bod yn defnyddio system yn y cwmwl gyda gweinyddion a leolir y tu allan i'r AEE) ac os felly, byddwn yn gwneud yn siŵr bod diogelwch priodol yn bodoli i sicrhau cyfrinachedd a diogelwch eich data personol.

Nid ydym yn gwerthu unrhyw ddata personol i unrhyw drydydd partion ac nid ydym yn rhoi unrhyw ddata personol am ddefnyddwyr Meithrinfa Ysgolheigion Bach i gwmnïau marchnata uniongyrchol neu sefydliadau eraill tebyg.

Sail gyfreithiol

Rydym yn defnyddio'r data personol sy'n ymwneud â rhieni/gofalwyr a phlant yn ein gofal er mwyn:

- Mynd i gontract gyda rhieni/gofalwyr i ddarparu gwasanaethau'r feithrinfa, neu fel cam cychwynnol angenrheidiol cyn ein bod yn mynd i gontract gyda rhieni/gofalwyr;
- cydymffurfio â'r goblygiadau cyfreithiol y mae'r Brifysgol a Meithrinfa Ysgolheigion Bach yn destun iddynt, yn cynnwys gofynion gwarchod a diogelu plant (er enghraifft Gweithio ar y Cyd i Ddiogelu Plant 2015 – *Working Together to Safeguard Children 2015*), gofynion CIW ac EYES 2007, cyfle cyfartal, gofynion mewnfudo a diogelwch cyhoeddus;
- At ddibenion buddiannau cyfreithlon y Brifysgol (er enghraifft, at ddibenion cynllunio, adolygu, rheoli a datblygu busnes y feithrinfa a'r Brifysgol, ond nid er mwyn gwneud unrhyw benderfyniadau am rieni/gofalwyr neu blant).

Byddwn yn prosesu categori data arbennig gyda chydsyniad diamheuol neu lle mae'n angenrheidiol:

- Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y Brifysgol a Meithrinfa Ysgolheigion Bach wedi, gan gynnwys gofynion gwarchod a diogelu plant (er enghraifft Gweithio ar y Cyd i Ddiogelu Plant 2015 – *Working Together to Safeguard Children 2015*);
- Ar adegau prin iawn, pan mae ei angen er mwyn gwarchod buddiannau hanfodol rhiant/gofalwr neu blentyn ac nid ydynt yn gallu cydsynio (er enghraifft, mewn argyfwng);
- Ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol;

Am ba hyd y caiff eich gwybodaeth ei chadw?

Mae'n ofynnol i ni yn ôl CIW gadw'r holl wybodaeth am y tair blynedd. Ar ôl yr amser hwn, bydd yr holl wybodaeth ar ffurf electronig neu ar bapur yn cael eu dileu'n ddiogel.

Eich hawliau

Mae gennych hawl:

- i gael mynediad at ddata personol a gedwir gennym amdanoch chi;
- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro data personol anghywir yr ydym yn ei gadw amdanoch;
- mewn rhai amgylchiadau, ei gwneud yn ofynnol i ni ddileu data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch;
- cael eich data personol, yr ydych wedi'i roi i ni, mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac sy'n ddarllenadwy i beiriant. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol hwn i sefydliad arall, ar eich cais;
- gwrthwynebu i ni brosesu data personol a gedwir gennym amdanoch chi
- tynnu eich caniatâd yn ôl, lle rydym yn dibynnu arno i ddefnyddio eich data personol (o dan yr amgylchiadau prin lle gallwn fod yn dibynnu ar eich caniatâd er mwyn gallu prosesu eich data personol).

Rheolwr y Data

Fel Rheolydd Data, Prifysgol Caerdydd sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am brosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Prifysgol Caerdydd yn inforequest@caerdydd.ac.uk

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau neu sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth ar gael yn: <https://www.cardiff.ac.uk/public-information/policies-and-procedures/data-protection/request-access-to-your-data>